

Cofnodion Drafft: 23-05 (26 Gorffennaf 2023)

Aelodau:

| | |
|---------------------|-------------------|
| Medwin Hughes | Cadeirydd |
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |
| Bamidele Adenipekun | Anweithredol |
| Jack Evershed | Anweithredol |
| Karen Lewis | Anweithredol |
| Rajan Madhok | Anweithredol |
| Jason Smith | Anweithredol |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr |

Mynychwyr:

| | |
|--------------------|--|
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Sharon Walters | Rheolwr Busnes |
| Geoff Ryall-Harvey | Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Llais, rhanbarth Gogledd Cymru |

Cyfarfod agoriadol

Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Barbara Harrington, Angela Mutlow a Ceri Sullivan.
- 1.3 Hysbysodd Jason Smith y Bwrdd nad oedd bellach yn Ymddiriedolwr ar gyfer Cymorth Cymru. Byddai'r gofrestr datganiadau o ddiddordeb yn cael ei diweddarau i adlewyrchu'r newid hwn. Yn ddarostyngedig i'r gwelliant hwn, cytunwyd ar y gofrestr datganiadau o ddiddordeb fel bod yn gywir ac yn gyfredol. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi eu codi mewn perthynas â'r eitemau i'w trafod.

A23-05-01: Diweddarau'r gofrestr datganiadau o ddiddordeb ar gyfer Jason Smith.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

- 2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 fel cofnod gwir o'r cyfarfod. Trafododd y Bwrdd y defnydd o acronymau a chytunodd na fyddent bellach yn cael eu defnyddio yng nghofnodion y Bwrdd. Yn hytrach, byddent yn cael eu hysgrifennu'n llawn fel ei bod yn amlwg i'r darlennydd. Yr unig eithriadau fyddai'r acronymau hynny fel y GIG a ddefnyddiwyd gan y cyhoedd yn gyffredinol.
- 2.2 Cyflwynwyd gweithredoedd y Bwrdd a log penderfyniadau, a chaewyd nifer o gamau gweithredu. Y canlynol: A22-01-05, A22-01-22, A22-01-23, A22-02-04, A22-02-05, A22-03-05, A23-01-02, A23-01-09, A23-01-12, A23-02-02, A23-03-01, A23-03-02, A23-03-03, A23-03-04, A23-03-05, A23-03-06, A23-03-11, A23-03-14, A23-03-15, A23-03-16, A23-03-17, A23-04-01, A23-04-02, A23-04-03, A23-04-04.

Trafododd y Bwrdd y camau gweithredu sy'n weddill a darparwyd diweddariad.
- 2.3 Ers y cyfarfod ffurfiol diwethaf yr oedd dau benderfyniad wedi eu cymryd allan o'r pwyllgor. Y rhain oedd cytundeb o:
 - DooC-07: fersiwn derfynol disgrifiad rôl Llysgenhadwr Anweithredol
 - DooC-08: cynllun gwaith y Bwrdd ar gyfer gweddill 2023/24
- 2.4 Hysbyswyd y Bwrdd bod nifer o faterion heb eu disgwyl wedi bod gyda sefydlu systemau TG Llais. Roedd 2 swyddfa ranbarthol a'r tîm cenedlaethol wedi symud drosodd i'r system newydd, ond byddai'r swyddfeydd rhanbarthol sy'n weddill yn cael eu gohirio nes i'r materion gael eu datrys. Disgwylid y byddai trosglwyddo'r swyddfeydd rhanbarthol sy'n weddill yn cael ei gwblhau erbyn canol mis Awst. Nododd y Bwrdd y llinell amser disgwylidig a gofynnodd bod hyn yn cael ei gadw dan adolygiad gweithredol.
- 2.5 Nododd y Bwrdd fod deunyddiau marchnata a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar ran Llais wedi cael eu diwygio a'u bod yn cael eu cwblhau gan y tîm dylunio. Ar ôl cael eu derbyn, byddai'r dogfennau'n cael eu hargraffu a'u dosbarthu i holl swyddfeydd

rhanbarthol Llais i'w defnyddio i gefnogi eu hymgylltiad â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

- 2.6 Hysbyswyd y Bwrdd bod y cynnydd o ran recriwtio ac ysgogi gwirfoddolwyr wedi bod yn arafach na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd cael y cliriad diogelwch angenrheidiol. Gofynnodd y Cadeirydd am y diweddariad yng nghyfarfod nesaf y bwrdd, gan amlinellu'r sefyllfa bresennol a sut yr oedd gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi.
- 2.7 Clywodd y Bwrdd fod gwaith ar y gweill ar lefel ranbarthol i fod yn fwy hygyrch i bobl ac ymestyn ein cyrhaeddiad i weithgareddau lleol yn y gymuned drwy allgymorth a gynlluniwyd, e.e., mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Nododd aelodau'r bwrdd y byddai angen i'r lleoliadau a ddewiswyd ar gyfer gweithgareddau allgymorth fod yn addas i ddarparu'r gwasanaethau a gynigiwyd gennym, ee, manau cyfrinachol ar gyfer gwaith eiriolaeth cwynion.

A23-05-02: Nododd y Bwrdd y llinell amser disgwyliedig gyda sefydlu systemau TG Llais a gofynnodd fod hyn yn cael ei gadw dan adolygiad.

A23-05-03: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran penodi a chefnogi gwirfoddolwyr.

Adroddiadau

Adroddiad gan y Cadeirydd

- 3.1 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd diweddar.
- 3.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd, gan y byddai cyfarfodydd Bwrdd Llais yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, y byddai pob cyfarfod yn cynnwys eitem i ganolbwyntio ar y rhanbarth lle cynhaliwyd y cyfarfod. Gan ein bod yng Ngogledd Cymru, roedd cyfarwyddwr rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ymuno â'r cyfarfod a byddai'n cyflwyno eitem yn ymdrin â gweithgareddau Llais a'r materion iechyd a gofal cymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar y rhanbarth.
- 3.3 Nododd y Cadeirydd ddiwedd y 100 diwrnod cyntaf o weithrediadau ac estynnodd ei ddiolchgarwch i gydweithwyr Llais am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddai adroddiad llawn yn cael ei ddarparu yn

ddiweddarach yn y cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd y byddai cynllun blynyddol ar gyfer gweddiill y flwyddyn ariannol yn cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf, byddai hyn yn darparu fframwaith priodol y byddai Llais yn cyflawni ei flaenoriaethau o'i fewn.

- 3.4 Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud bod Llais fel corff statudol newydd yn awyddus i sefydlu ystod eang o rwydweithiau rhanddeiliaid ac roedd yn bwysig ein bod yn datblygu'r rhain mor gynnar â phosibl.

Adroddiad y Prif Weithredwr

- 4.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd diweddar.
- 4.2 Nododd y Prif Weithredwr gyda thristwch fod Clare Clements, aelod o staff hoffus yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro, wedi marw yn ddiweddar. Cyn gweithio i'r Cynghorau Iechyd Cymuned, roedd Clare wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r CIC ers 10 mlynedd. Roedd staff Caerdydd a'r Fro yn derbyn cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn ac roedd ganddynt fynediad at y gwasanaeth cwnsela staff.
- 4.3 Cynigiwyd llongyfarchiadau i Gadeirydd Llais am gael ei hanrhydeddu gan Ei Fawrhydi'r Brenin yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd 2023, ar ôl cael ei wneud yn Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig, (C.B.E.) am wasanaeth i addysg a'r iaith Gymraeg.
- 4.4 Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol Yn benodol, roedd y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu wedi gweithio gyda Llais i hwyluso ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar ein gweledigaeth strategol, ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio. Roedd hyn wedi cynnwys cyfres o sesiynau ar-lein yn ogystal ag arolwg cenedlaethol. Roedd y rhanbarthau hefyd yn defnyddio'r cyfle yn ystod gweithgareddau wyneb yn wyneb i annog adborth.
- 4.5 Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid i hyrwyddo Llais, i ddatblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu rheolaidd ac i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio, gan gynnwys ar feysydd posibl o ddiddordeb cyffredin. Roedd hyn yn cynnwys y cyfarfodydd canlynol gyda'r:

- rheoleiddwyr proffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
 - Comisiynydd Pobl Hŷn a'i thîm i siarad am brofiad pobl hŷn o wasanaethau gofal sylfaenol, yn enwedig gwasanaethau MT
 - Cadeirydd a Chomisiynydd y Gymraeg a'i thîm. Soniasant am ddatblygiad gwasanaethau Llais yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Soniasant hefyd am bwysigrwydd gweithio gyda'r Comisiynydd fel y gall Llais ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi mwy o wirfoddolwyr Gymraeg eu hiaith
 - Healthwatch Lloegr i siarad am rannu arfer da a dysgu oddi wrth ei gilydd, trefniadau trawsffiniol a materion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ar lefel y DU. Cynlluniwyd trafodaethau tebyg gyda chydweithwyr yn yr Alban ac Iwerddon i nodi sut y gallwn gydweithio'n effeithiol.
- 4.6 Mynychodd y Prif Weithredwr a Bami Adenipekun gynhadledd Comisiwn Bevan penblwydd 75 oed diweddar. Roedd Bami wedi cynrychioli Llais mewn trafodaeth banel, a hwylusodd Llais nifer o sesiynau torri allan i siarad am sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol.
- 4.7 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau i gyfarfod â swyddfeydd rhanbarthol Llais. Maent wedi ymweld â swyddfeydd yng Ngogledd Cymru, Gorllewin Cymru a Gwent a chynlluniwyd ymweliadau pellach. Byddai'r rhain hefyd yn cynnwys uwch staff eraill Llais gan gynnwys Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu.
- 4.8 Mae trafodaethau wedi parhau gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ynghylch trefniadau nawdd. Roedd y Prif Weithredwr wedi derbyn ei llythyr Swyddog Cyfrifyddu. Dynododd hyn y Prif Weithredwr yn ffurfiol yn Swyddog Cyfrifyddu o 1 Ebrill 2023. Byddai'r llythyr yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd a'i gyhoeddi ar wefan Llais.

- 4.9 Cynghorodd y Prif Weithredwr y Bwrdd fod rhai heriau recriwtio wedi bod, yn enwedig mewn rhai meysydd arbenigol. Roedd tîm y gweithlu yn gweithio gydag asiantaethau recriwtio i ddod o hyd i ymgeiswyr addas i lenwi amrywiaeth o rolau dros dro nes y gellid gwneud penodiadau parhaol.
- 4.10 Soniodd y Bwrdd am ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol sefydliadol a nododd aelodau'r Bwrdd y byddai'r amseriad ar gyfer datblygu dangosyddion perfformiad allweddol yn cysylltu â chynlluniau strategol a gweithredol y sefydliad. Byddai trefniadau casglu data yn cyd-fynd â chyflwyno'r system rheoli perthynas â chwsmeriaid. Byddai hyn yn golygu y gellid datblygu set lawn o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer blwyddyn adrodd 2024-2025. Cytunwyd y byddai papur ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod mis Hydref, ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol drafft.
- 4.11 Gofynnodd y Bwrdd beth roeddem yn ei glywed am ofal cymdeithasol. Cynghorodd y Prif Weithredwr ein bod, drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, wedi clywed am ystod o heriau, gan gynnwys anawsterau wrth gael mynediad at ofal cartref a gofal seibiant, effaith prinder gweithlu a'r cysylltedd rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 4.12 Cynghorwyd y Bwrdd bod y gwasanaeth eiriolaeth cwynion wedi dechrau delio â chwynion gofal cymdeithasol, a rhai ohonynt yn gymhleth eu natur.

A23-05-04: Rhannu llythyr dynodi'r Swyddog Cyfrifyddu gyda'r Bwrdd a'i gyhoeddi ar wefan Llais.

A23-05-05: Cyflwyno eitem i'r Bwrdd ar ddangosyddion perfformiad allweddol arfaethedig ar gyfer cynllun blynyddol 2023-2024 yn ei gyfarfod mis Hydref.

Adroddiad gan Bwyllgorau'r Bwrdd

- 5.1 Nodwyd y byddai cadeiryddion pwyllgor Llais yn darparu adroddiadau ar fusnes a materion pwyllgor ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus. Byddai hyn yn golygu bod y Bwrdd llawn yn cael ei diweddarau. Bydd crynodeb o fusnes pwyllgorau yn cael ei drafod

mewn fforwm cyhoeddus a bydd yn cael ei nodi yng nghofnodion y Bwrdd, y gellir cael mynediad iddynt gan aelodau'r cyhoedd.

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- 5.2 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wrth y Bwrdd fod y pwyllgor wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 5 Gorffennaf 2023. Roedd canolbwynt y cyfarfod ar drefniadau'r pwyllgor, gan gynnwys cytuno ar ei gynllun gwaith ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.
- 5.3 Hysbyswyd y Bwrdd bod y broses dendro ar gyfer gwasanaeth archwilio mewnol ar y gweill. Byddai panel yn ymgynnull ym mis Awst 2023 i ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd cyn cyflwyno argymhelliad i'r Pwyllgor ar y cyflenwr mwyaf addas.
- 5.4 Cyflwynwyd y gofrestr risg gorfforaethol ddrafft i'r Pwyllgor i'w hystyried. Roedd y pwyllgor yn fodlon yn fras â'r risgiau a nodwyd, lliniaru camau gweithredu a sgorio risg. Awgrymwyd rhai newidiadau cyflwynol. Byddai'r Pwyllgor yn cael golwg ar y gofrestr risg gorfforaethol eto cyn iddi gael ei rhannu gyda'r Bwrdd i'w chymeradwyo.
- 5.5 Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y diweddariad a nododd y sefyllfa bresennol.

Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

- 5.6 Ni chafwyd diweddariad gan y pwyllgor. Byddai'r pwyllgor yn cyfarfod am y tro cyntaf dros y misoedd nesaf.

Ein adroddiad 100 diwrnod cyntaf

- 6.1 Cyflwynwyd adroddiad drafft i'r Bwrdd i'w ystyried a'i gymeradwyo cyn ei gyhoeddi. Roedd yr adroddiad drafft yn crynhoi'r camau a gymerwyd, a'r cynnydd a wnaed gan Llais i gyflawni'r ymrwymadau a nodir yn 'Ein 100 diwrnod cyntaf'. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai fersiwn crynodeb a hawdd ei ddarllen ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau i'w gyhoeddi.
- 6.2 Diolchodd y Prif Weithredwr i gydweithwyr am eu cefnogaeth wrth helpu i gyflawni'r ymrwymadau hyn.

- 6.3 Trafodwyd yr angen i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod rhai cyhoeddiadau Llais ar gael yn y 10 iaith a ddefnyddir fwyaf, ond byddai gwaith pellach yn cael ei wneud gyda grwpiau cymunedol i gasglu adborth ar ba ieithoedd eraill sydd eu hangen.
- 6.4 Nododd a chymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad 'Ein 100 diwrnod cyntaf'.

A23-05-06: Cynhyrchu crynodeb a fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad 'Ein 100 diwrnod cyntaf' i'w gyhoeddi.

D23-05-01: Cytunodd y Bwrdd ar yr adroddiad 'Ein 100 diwrnod cyntaf' i'w gyhoeddi a'i ddsbarthu.

Cynllun ariannol 2023-24

- 7.1 Derbyniodd y Bwrdd bapur yn amlinellu'r cynllun ariannol drafft ar gyfer 2023/24 i'w gymeradwyo. Nodwyd bod y Bwrdd wedi trafod y cynllun ariannol mewn sesiwn anffurfiol yn gynharach ym mis Gorffennaf 2023.
- 7.2 Cafodd y cynllun ariannol ei strwythuro dros 4 elfen allweddol:
- Gofynion cynllun ariannol — dyletswydd ariannol
 - Llythyr cyllid Llywodraeth Cymru
 - Cyllidebau incwm
 - Cyllidebau gwariant
- 7.3 Hysbyswyd y Bwrdd bod llythyr cyllid Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyfanswm cyllideb adnoddau o £7,307,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024. Roedd hwn yn fuddsoddiad ychwanegol o £2.653m i fyny o waelodlin y CIC o £4.653m. Yr arian ychwanegol oedd i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'i statws fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru annibynnol, ac i gyflawni ei ddyletswyddau ehangach yn effeithiol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).
- 7.4 Nodwyd bod rhai llinellau cyllideb yn 2023/2024 wedi eu lleihau 25% i gymryd i ystyriaeth bod Llais yn sefydliad newydd sy'n recriwtio

adnodd staff ychwanegol, ac roedd pob un ohonynt yn annhebygol o fod ar waith erbyn Gorffennaf 2023 ond lle byddai angen cyllid blwyddyn lawn yn y blynyddoedd i ddod.

- 7.5 Cynghorwyd y Bwrdd bod angen rhagor o waith rhagweld ar gyfer cyllideb 2023-2024 a fyddai'n gofyn am ystyriaeth bellach gan y Bwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- 7.6 Hysbyswyd y Bwrdd bod £0.2m heb ei ddyrannu o fewn y cynllun cytbwys. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r tanwariant posibl hwn a byddai'n cael ei fonitro ar y cyd gan Llais a Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.
- 7.7 Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar recriwtio. Hysbyswyd yr aelodau bod rolau Llais yn cael eu hysbysebu drwy lwyfan recriwtio'r GIG 'Trac'. Roedd Llais hefyd yn hyrwyddo swyddi gwag drwy wefan Llais, sianeli cyfryngau cymdeithasol a dosbarthiad wedi'i dargedu drwy rwydweithiau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n darparu mynediad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- 7.8 Nododd a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Ariannol drafft 2023-2024 yn ffurfiol.

D23-05-02: Nododd a chymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Ariannol drafft 2023-2024 yn ffurfiol.

Iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Gogledd Cymru

- 8.1 Rhoddodd Geoff Ryall-Harvey, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais, rhanbarth Gogledd Cymru'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, a'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer y rhanbarth.
- 8.2 Darparodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol drosolwg o'r rhanbarth, ei fwrdd iechyd ac awdurdodau lleol. Tynnwyd sylw at rai meysydd allweddol sy'n peri pryder i boblogaeth Gogledd Cymru, gan gynnwys:
 - Cynlluniau dadleuol i symud y ganolfan ambiwlans awyr yng Ngogledd Cymru o Gaernarfon i Ddinbych

- Y dychweliad at Fesurau Arbennig ar gyfer y bwrdd iechyd, a'r effaith ar hyder y cyhoedd yn y bwrdd iechyd, sy'n parhau i fod yn isel
 - Mae gwasanaethau iechyd meddwl unwaith eto yn ffurfio rhan o'r fframwaith Mesurau Arbennig.
 - anawsterau wrth gael mynediad at rai meddygfeydd a mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn bron yn amhosibl mewn rhannau helaeth o'r rhanbarth.
 - adborth a rannwyd gyda'r cyn-Gyngor Iechyd Cymuned am y boen a'r dioddefaint a achosir gan arosiadau hir. Roedd profiadau pobl yn cynnwys byw gydag iselder, anawsterau arian a chyflogaeth a pherthnasau'n chwalu.
-
- Effaith methiannau Tawel Fan, rhyw 10 mlynedd ymlaen o'r honiadau am driniaeth wael pobl yn byw gyda dementia.
 - Materion parhaus gyda gwasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys diffyg eglurder ar lwybrau gofal a phryderon ynghylch arweinyddiaeth glinigol.

Clywodd y Bwrdd fod recriwtio a chadw staff clinigol yn parhau i fod yn faes risg allweddol i'r bwrdd iechyd.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Bwrdd ei fod ef a'i dîm yn meithrin perthnasoedd â'r sector gofal cymdeithasol, ac roedd cyfarfodydd wedi digwydd gyda nifer o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y rhain wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Aeth y Cyfarwyddwr Rhanbarthol ymlaen i grynhoi'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan randdeiliaid a'u rhannu gyda'r cyn-Gyngor Iechyd Cymuned. Rhain oedd:

- Amseroedd atgyfeirio am driniaeth (RTT)
- Fframwaith Ymyrraeth wedi'i Thargedu BIPBC — *Mesurau Arbennig eto*
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau fasgwlaidd, gan gynnwys llwybr traed diabetig
- Gofal sylfaenol (*gyda ffocws arbennig ar fynediad at wasanaethau MT a deintyddol*)
- Gofal a gwasanaethau a ddarperir mewn Adrannau Brys
- Gwasanaethau offthalmoleg
- Ysbytai Cymunedol ac Unedau Mân Anafiadau

- Oedi wrth Drosoglwyddo Gofal
- Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol — bellach wedi'i ganslo gan Lywodraeth Cymru
- Strategaeth Ddigidol BIPBC
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Iaith Gymraeg.

Cafodd y Bwrdd diweddariad hefyd am ran tîm Gogledd Cymru mewn cynigion newid gwasanaeth ers Ionawr 2023; estyniad y gwasanaeth eiriolaeth cwynion i gynnwys cwynion gwasanaethau cymdeithasol; a'r rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd hyd yn hyn. Roedd hyn wedi rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Llais, ac i glywed gan bobl am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Diolchodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol, y cydweithwyr a'r gwirfoddolwyr am ddiweddariad cynhwysfawr ar faterion sy'n effeithio ar ranbarth Gogledd Cymru.

Nododd y Bwrdd y dylai 2 faes ymyrraeth allweddol ar gyfer Llais fod y ffocws di-baid ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a sut mae angen i ni fod yn sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth.

Yr hyn y mae pobl ei eisiau gan Llais: Datblygu ein gweledigaeth strategol, ein cenhadaeth a blaenoriaethau gyda'n gilydd

- 9.1 Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd yn rhoi trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd o'n hymarfer ymgysylltu wedi'i dargedu a hwyluswyd gan y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu. Roedd y papur hefyd yn cynnwys rhai ffyrdd a awgrymir y gallai Llais ymateb i'r adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, a'r camau nesaf wrth ddatblygu ein gweledigaeth strategol, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd.
- 9.2 Nododd y Bwrdd fod Llais wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu i gyflwyno nifer o ddigwyddiadau gweithdy ar-lein rhanbarthol, arolwg cenedlaethol a chynnig sgysiau un-i-un a grŵp. Darparwyd deunyddiau hefyd i gefnogi grwpiau i gynnal eu trafodaethau a'u hadborth eu hunain yn uniongyrchol i ni. Cafodd digwyddiadau eu hyrwyddo'n eang ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy wefan Llais. Roedd staff a gwirfoddolwyr Llais hefyd yn codi ymwybyddiaeth ac annog adborth trwy gyfarfodydd ac mewn

- digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb. Byddai 2 weithdy pellach yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos.
- 9.3 Ar ôl i'r holl weithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau, byddai dadansoddiad llawn ac adroddiad terfynol yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu gyda'r Bwrdd.
- 9.4 Nodwyd nifer o rwystrau posibl rhag cymryd rhan yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma. Byddai'r dysgu hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r trefniadau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.
- 9.5 Nododd y Bwrdd er y byddai cam cyntaf ymgysylltu yn dod i ben ar 31 Gorffennaf, bod ymgysylltu yn allweddol i gyflawni swyddogaethau Llais ac felly y byddai'n barhaus.
- 9.6 Soniodd y Bwrdd am bwysigrwydd darparu gwybodaeth yn rhagweithiol mewn ystod o ieithoedd cymunedol, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Nodwyd y byddai pobl yn fwy tebygol o ymateb pe byddai amrywiaeth o ieithoedd cymunedol yn cael eu darparu fel rheol.
- 9.7 Gofynnodd y Bwrdd am ymgyrch farchnata Llais a sylw o fewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys, e.e. gwybodaeth sydd ar gael mewn fferyllfeydd neu feddygfeydd. Tawelwyd meddwl y Bwrdd, er bod yr ymgyrch gychwynnol wedi dod i ben, y bydd rhaglen barhaus o hyrwyddo i Llais, gan gynnwys gweithgareddau hyrwyddo y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth â chyrrff y GIG ac awdurdodau lleol.

Ein ffyrdd o weithio: Cod ymarfer ar fynediad i fangre ac ymgysylltu ag unigolion

- 10.1 Cyflwynwyd papur yn amlinellu bod gwaith bellach ar y gweill i gefnogi gweithredu'r cod ymarfer ar fynediad i fangre ac ymgysylltu ag unigolion yn dilyn ei gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru.
- 10.2 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol gyda Llais ar y cod ymarfer ar fynediad i fangre ac ymgysylltu ag unigolion. Roedd Llais wedi ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ac wedi hynny gwnaed diwygiadau pellach gan Lywodraeth Cymru i'r cod cyn ei gyhoeddi.

10.3 Nododd y Bwrdd fod ymgysylltu â darparwyr gofal cymdeithasol wedi dechrau ar draws y rhanbarthau i gyflwyno Llais a siarad am ein cylch gwaith, gan gynnwys ymweld i glywed gan bobl tra byddant yn cyrchu gwasanaethau. Byddai'r gwaith hwn yn llywio ein dysgu, a datblygiad ein safonau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys ymweld.

Penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau'r Bwrdd

- 11.1 Derbyniodd y Bwrdd bapur yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi 2 aelod annibynnol â phrofiad ariannol a chyfreithiol i gefnogi'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) yn ei rôl wrth ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu.
- 11.2 Roedd y pwyllgor wedi trafod y mater yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2022 ac wedi nodi'r sgiliau yr oeddent o'r farn eu bod eu hangen i sicrhau y gallai'r pwyllgor gyflawni ei waith yn effeithiol.
- 11.3 Cytunodd y Bwrdd i benodi 2 aelod annibynnol i'r pwyllgor gyda phrofiad ariannol a chyfreithiol.

A23-05-07: Penodi 2 aelod annibynnol i'r pwyllgor sydd ag arbenigedd ariannol a chyfreithiol.

Diweddariad penodiad aelod cyswllt y Bwrdd

- 12.1 Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y llinell amser ar gyfer penodi Aelod Cyswllt. Nodwyd bod y llinell amser wedi llithro oherwydd yr ymgysylltiad parhaus a oedd yn digwydd gydag undebau llafur. O gofio mai hwn fyddai'r penodiad cyntaf o'r Aelod Cyswllt Llais, roedd yn bwysig bod yr holl sylwadau ac awgrymiadau yn cael eu hystyried yn briodol. Y camau nesaf fyddai ymgynghori â staff Llais ar delerau penodi ar gyfer y rôl.
- 12.2 Roedd Llais wedi gobeithio penodi unigolyn i'r swydd hon mewn pryd ar gyfer cyfarfod bwrdd Gorffennaf ond oherwydd yr ymgysylltiad parhaus, ni fyddai'r penodiad yn cael ei wneud tan gyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

13.1 Ni chodwyd unrhyw fusnes pellach.

Edrych ymlaen

14.1 Nododd y Bwrdd yr olwg ymlaen.

Cwestiynau gan y cyhoedd

15.1 Nododd y Bwrdd fod aelodau o'r cyhoedd wedi anfon rhai cwestiynau i mewn i'r Bwrdd i'w hateb yn y cyfarfod. Rhannodd y Prif Weithredwr y cwestiynau gyda'r Bwrdd, a darparodd ymateb.

15.2 Cwestiwn

Mae camddefnyddio sylweddau yn bwnc sy'n aml yn mynd o dan y radar wrth graffu ar berfformiad iechyd a gofal cymdeithasol. Pa gynlluniau sydd gan Fwrdd Llais felly i ymgysylltu â'r Byrddau Cynllunio Ardal ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael gwell dealltwriaeth o sut mae eu cyllidebau sylweddol yn cael eu defnyddio i ddarparu'r driniaeth fwyaf effeithiol a gwasanaethau lleihau niwed i un o'r grwpiau mwyaf ymylol a di-lais mewn cymdeithas?

Ymateb

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r cyhoedd a sefydliadau eraill i'n helpu i nodi ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol — bydd gan ein cynlluniau ffocws clir ar helpu i sicrhau nad yw pobl a grwpiau sydd ar yr ymylon yn aml yn mynd heb eu clywed.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn darganfod mwy o wybodaeth gan gyrff eraill am eu cynlluniau i ddatblygu, adolygu neu ddilyn gweithgaredd blaenorol gyda'r nod o wella gwasanaethau. Rydym yn gwybod, er enghraifft, fod Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi codi pryderon o'r blaen yn eu hadolygiad o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru ac eisiau clywed sut mae ei gamau gweithredu a argymhellir wedi gwneud gwahaniaeth. Bydd y wybodaeth a gasglwn yn ein helpu i benderfynu ar ein gweithredoedd.

15.3 Cwestiwn

Yr ydym yn clywed llawer o gwynion gan gleifion sy'n cael problem ag argaeledd presgripsiynau. Mae llawer sy'n derbyn meddyginiaeth ar gyfer

cyflyrau difrifol yn gweld nad yw'r cyffuriau ar gael. Sut broblem yw hyn a beth sydd yn/y gellir ei wneud ynglŷn â hyn a gall Llais codi'r mater ar lefel genedlaethol gyda gweinidogion.

Ymateb

Gwyddom o waith yr hen Gyngorau Iechyd Cymuned fod pobl wedi codi pryderon yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch argaeledd rhai meddyginiaethau, fel HRT a gwrthfotigau. Cododd y cyn-Gyngorau Iechyd Cymuned y materion hyn gyda Llywodreath Cymru ar y pryd.

Bydd Llais yn yr un modd yn codi pryderon gyda Gweinidogion Cymru lle mae angen gweithredu cenedlaethol i ymateb i faterion sy'n effeithio ar fynediad a phrofiad pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ers i Llais ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2023, mae rhai rhanbarthau wedi adrodd pryderon parhaus ynghylch mynediad at feddyginiaethau, er nad yw'r rhain wedi'u clywed yn gyson ym mhob rhan o Gymru, neu mewn perthynas ag unrhyw feddyginiaeth benodol.

Rydyn ni'n gwybod pa mor bryderus, dirdynol, ac o bosibl niweidiol yw hi i bobl pan nad ydyn nhw'n gallu cael eu meddyginiaeth yn hawdd, ble a phryd maen nhw ei angen. Bydd ein staff yn cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau fferyllfa yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn manteisio ar y cyfle i ddarganfod mwy am y mater pwysig hwn.

15.4 Cwestiwn

Yn wyneb y dystiolaeth a ddarparwyd gan Mark Drakeford a Vaughan Gething yn Ymchwiliad Covid y DU sydd wedi dangos yn glir nad oedd Cymru yn barod ar gyfer unrhyw bandemig cyn Covid yn 2019.

Yn wyneb y datguddiad, pa gamau y mae Llais wedi'i wneud â Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd i ofyn am gadarnhad bod strwythurau cynllunio cadarn ar waith bellach a fydd yn sicrhau ni fydd y diffyg parodrwydd ar gyfer Covid yn cael ei ailadrodd pan fydd y pandemig nesaf yn digwydd?

Os ydych wedi bod yn cyfathrebu ar y mater hwn, a allwch roi sicrwydd i boblogaeth Cymru y darperir yn briodol ar gyfer eu hanghenion iechyd angenrheidiol mewn pandemig.

Ymateb

Ein rôl yn Llais yw helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gwrando ar farn a phrofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gweithredu arnynt.

Wrth i ymchwiliad y DU gyflawni ei waith pwysig, rydym yn gweithio i sicrhau bod lleisiau pobl sy'n byw yng Nghymru yn helpu'r ymchwiliad i ddeall sut yr effeithiodd y pandemig ar ein bywydau - fel bod ei ymchwiliadau yn nodi'n glir y gwersi y mae angen eu dysgu ar gyfer y dyfodol.

Hyd yn hyn, rydym wedi anfon tystiolaeth at ymchwiliad y DU o'r pethau yr oedd yr hen Gyngorau Iechyd Cymuned yn eu clywed gan bobl drwy wahanol gamau'r pandemig, fel y nodir mewn ystod o adroddiadau cenedlaethol. Mae gwaith ar y gweill i baratoi a chyflwyno tystiolaeth bellach sy'n ymgorffori myfyrdodau pobl o effaith y pandemig.

Wrth i'r ymchwiliad symud ymlaen â'i waith ac adrodd ar ei ganfyddiadau, byddwn yn gweithio i helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu mewn ymateb, fel eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y dyfodol.

15.5 Cwestiwn

Pam nad yw Llais yn agored ac yn dryloyw gyda'r cyhoedd drwy beidio â dilyn y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol drwy gyhoeddi'r holl wybodaeth gyfarfodydd ar-lein cyn y cyfarfodydd?

Ymateb

Mae bod yn gynhwysol, yn ddibynadwy ac yn dryloyw yn bwysig i ni.

Fel sefydliad newydd rydym am geisio gwneud pethau ychydig yn wahanol, ac mewn ffordd sy'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Felly, rydym am weithio gyda chi i ddarganfod y ffordd orau i'ch cynnwys yn ein gweithgareddau mewn ffordd sy'n gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd ein Bwrdd.

Gwyddom nad rhannu gwybodaeth drwy bapurau ffurfiol y Bwrdd yw'r ffordd fwyaf cynhwysol o rannu gwybodaeth am y pethau y mae ein Bwrdd yn eu gwneud a'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. Felly, er inni glywed gennych am y ffyrdd gorau o wneud hyn, a chan ein bod

yn dal i ymgartrefu yn ein sefydliad newydd, gofynasom pe baech am gael papurau'r Bwrdd, y gallech gysylltu â ni, a byddem yn eu hanfon atoch.

Rydym wedi clywed ei bod yn bwysig i chi ein bod yn sicrhau bod papurau'r Bwrdd ar gael yn haws ar ein gwefan, yn lle ar gais. Rydym bellach wedi gwneud hyn.

Gan ein bod yn sefydliad newydd, ac wrth i ni weithio gyda chi i feddlw am y ffordd orau o wneud pethau, efallai y byddwn yn cael pethau'n anghywir. Mae'n ddrwg gennym fod ein penderfyniad i beidio â chyhoeddi papurau ein Bwrdd wedi achosi pryder. Byddwn yn parhau i wrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym ac yn gweithredu o ganlyniad.

Rydym am glywed eich syniadau a'ch awgrymiadau am y ffyrdd mwyaf hygyrch i rannu'r hyn y mae'r Bwrdd yn ei wneud yn y dyfodol. Rydym am glywed beth rydych chi'n meddwl yw'r ffyrdd gorau o gynnal cyfarfodydd ein Bwrdd, gan gynnwys sut y gallwn ddefnyddio digidol, TG a fideo i helpu pobl i ddarganfod amdanom a chymryd rhan, hyd yn oed os na allwch fynychu'n bersonol.

- 15.6 Yn ogystal â chwestiynau a anfonwyd ymlaen llaw, gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynychu cyfarfod y Bwrdd godi unrhyw gwestiynau gyda'r Bwrdd. Gofynnodd un aelod o'r cyhoedd a fyddai Llais yn cefnogi galwad Crwner EM am ymchwiliad cyhoeddus i wasanaethau fasgwlaidd.
- 15.7 Penderfynodd y Bwrdd fod angen derbyn rhagor o wybodaeth am wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru. Cytunwyd y byddai Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru yn darparu sesiwn briffio manylach fel y gall Llais benderfynu ar ei gamau nesaf.
- 15.8 Nododd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau y dylai'r bobl a'u teuluoedd a oedd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y methiannau mewn gwasanaethau fasgwlaidd gael atebion i'w cwestiynau a'u pryderon, a bod y gwelliannau sydd eu hangen yn cael eu symud ymlaen cyn gynted â phosibl.
- 15.9 Clywodd y Bwrdd hefyd gan berson a rannodd ei brofiad o aros am driniaeth ar gyfer apnoea cwsg, yr effaith ar ei iechyd a phwysigrwydd dwyn y rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd i gyfrif.

15.10 Gofynnodd person arall pam nad oedd rheoleiddiwr iechyd yng Nghymru, fel yn Lloegr. Cynghorodd y Prif Weithredwr mai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd annibynnol ac arolygydd gofal y GIG yng Nghymru.

A23-05-08: Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru i ddarparu sesiwn briffio manylach ar wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru er mwyn galluogi Llais i benderfynu ar y camau nesaf.

15.11 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben.

DRAFT